

Garddio er Budd Bywyd Gwyllt Sir Gaerfyrddin

Canllaw sylfaenol i breswylwyr yw'r daflen hon er mwyn eich helpu i wella gwerth eich iard gefn neu eich gardd ar gyfer bywyd gwyllt.


Cynghorion
er mwyn gwella eich
gardd ar gyfer
bioamrywiaeth



Pam garddio er budd bywyd gwyllt?



Mae gerddi yn gallu cynnal llawer o fywyd gwyllt. Mae modd i ardd fod yn noddfa i amrywiaeth rhyfeddol o adar a thrychfilod. Mae'n bosibl bellach fod gerddi trefol yn gadarnleoedd arwyddocaol i famaliaid megis draenogod ac i amffibiaid.



Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae gerddi a rhandiroedd wedi dod yn gynefinoedd mwyfwy pwysig i fywyd gwyllt, gan gynnwys nifer o rywogaethau sydd bellach yn brin yng nghefn gwlad. Yn ogystal mae gerddi a rhandiroedd yn gallu bod yn llwybrau cyswllt pwysig i fywyd gwyllt. Yn ein trefi, mae cyfran helaeth o'r cynefin sydd ar gael ar gyfer bywyd gwyllt ar gael ar ffurf gerddi, sef 'ysgyfaint gwyrdd' ein hamgylchedd trefol.



Fodd bynnag mae rhai arferion garddio yn gallu bod yn andwyol i fywyd gwyllt. Mae gordefnyddio plaladdwyr a gwrteithiau, gordacluso gerddi, draenio pyllau, a defnyddio mawn, i gyd yn gallu bod yn arferion niweidiol. Fodd bynnag, drwy gymryd rhai camau syml gallwn ni i gyd arddio mewn modd sy'n hybu bywyd gwyllt.



Cynghorion ynghylch gwella eich gardd ar gyfer bywyd gwyllt!

- Garddiwch mewn modd organig! Peidiwch â defnyddio gwrteithiau cemegol; gwnewch eich compost eich hun, ac anogwch ddulliau naturiol o reoli plâu, er enghraifft brogaod, llyffantod a draenogod. gardenorganic.org.uk
- Plannwch goed a llwyni cynhenid sydd yn fwy atyniadol i wenyn ac ieir bach yr haf na rhywogaethau estron. buglife.org.uk/activities-for-you/wildlife-gardening
- Plannwch berth gynhenid ar hyd terfynau eich eiddo, gan ddarparu cysgod, bwyd a man addas i adar nythu. [sirgar.llyw.cymru - bioamrywiaeth](http://sirgar.llyw.cymru-bioamrywiaeth)
- Darparwch ffynhonnell ddŵr ar gyfer bywyd gwyllt Crëwch bwl gardd neu lecyn llaith ar gyfer bywyd gwyllt. freshwaterhabitats.org.uk/
- Trowch eich gardd yn hafan o liw drwy greu dól blodau gwyllt. wildlifeinthecity.org/images/uploads/minimeadow_template2.pdf
- Gosodwch flychau ar gyfer adar ac ystumod. bats.org.uk
- Bwydych adar drwy gydol y flwyddyn. rspb.org.uk
- Gadewch bentyrrau plociau neu gerrig yn yr ardd fel mân gynefinoedd ar gyfer mamaliaid bychain, amffibiaid, ymlusgiaid a thrychfilod. wildaboutgardens.org
- Peidiwch â defnyddio mawn - os defnyddir y compostau sydd heb fawn ynddynt, bydd yn helpu i achub ein cynefinoedd mawnog pwysig. wildlifetrusts.org/actions/how-go-peat-free



Partneriaeth Natur
SIR GŶR - CARMARTHENSHIRE
Nature Partnership



Cyngor Sir GŶr
Carmarthenshire
County Council